



Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd

2015 – 2018

Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.

Mae'r strategaeth hon wedi'i pharatoi gan ALI cyfansoddol ERW, mewn partneriaeth â'n hysgolion a'n partneriaid allweddol. Ei diben yw cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion, fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes 2014-15 a Strategaeth ERW.

Mae dwy elfen benodol i'r strategaeth ar gyfer codi safonau llythrennedd a rhifedd yn y rhanbarth:

1. Gwella'r addysgu a'r dysgu mewn gwersi Saesneg, Cymraeg a Mathemateg er mwyn codi safonau;
2. Gwella'r dull o gymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Y Rhesymeg

Mae hyfedredd mewn llythrennedd a rhifedd yn hollbwysig ar gyfer dysgu effeithiol ar draws pob ysgol. Prif nod y strategaeth hon yw codi safonau a chyflawni cysondeb ar draws y rhanbarth, i sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol gyda'r sgiliau sydd eu hangen i ymdopi a gweithio yn eu bywydau pob dydd. Datblygwyd y strategaeth hon mewn ymateb i ymroddiad Llywodraeth Cymru i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r strategaeth yn ystyried:

- gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd;
- y gofyniad yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn i adrodd ar sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- yr argymhellion o adroddiadau thematig Estyn ar lythrennedd a rhifedd;
- gofynion y cyrsiau TGAU newydd;
- y wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliadau craidd i bob ysgol ar draws y rhanbarth.

Blaenoriaethau Cynllun Busnes ERW

Cenhadaeth ERW yw sicrhau rhaglenni llythrennedd a rhifedd effeithiol ym mhob ysgol ar draws y rhanbarth drwy:

1. Herio safonau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion:
 - Datblygu dulliau gweithredu i sicrhau safoni cadarn a chymedroli cywir ar draws clystyrau a chyfnodau ysgolion a chefnogi trosglwyddiadau o fewn ac ar draws cyfnodau allweddol;
 - Cydweithio gyda'r staff o wasanaethau gwahanol i sicrhau dull gweithredu cyson;
 - Adolygu'r bwllch rhwng y ddau ryw a sicrhau bod bechgyn a merched yn gwneud cynnydd da cyfartal.
2. Darparu hyfforddiant o safon uchel:
 - Sicrhau bod gan athrawon yr offer, y technegau a'r ddealltwriaeth i gynllunio gwersi sy'n canolbwyntio ar ddealltwriaeth disgyblion;
 - Gwella gwybodaeth, hyder a sgiliau proffesiynol, er mwyn i athrawon ym mhob pwnc ddeall eu bod yn athrawon llythrennedd a rhifedd, a'u bod yn gallu darparu cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm;

- Mynd i'r afael â'r bwlch rhwng y ddau ryw sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y consortiwm.
3. Atgyfnerthu capasiti arweinyddiaeth ac atebolrwydd am ddatblygu llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion.
 4. Dadansoddi data perfformiad er mwyn nodi unrhyw grwpiau dysgu sy'n galw am waith targedu pellach ac unrhyw amrywiaethau sy'n bodoli mewn ysgolion sydd angen eu datrys:
 - Cefnogaeth i arweinwyr a rheolwyr i wella gwaith hunanwerthuso a gwella ar gyfer llythrennedd a rhifedd;
 - Cyflwyno a gwerthuso profion consortiwm a phrofion cenedlaethol, yn ogystal â dadansoddiad manwl o ddata Asesiad Athro a data cymharol arall;
 - Cydweithio gyda staff o nifer o wasanaethau gwahanol er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson, yn arbennig ar gyfer mynd i'r afael â materion Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.
 5. Cynorthwyo ysgolion a nodwyd eu bod yn tanberfformio, drwy ddarparu:
 - Hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol pwrpasol, o safon uchel, yn unol â blaenoriaethau lleol, consortiwm a chenedlaethol, er mwyn codi safonau;
 - Offer i werthuso cynnydd yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymyrraeth y cytunwyd arno;
 - Canllawiau a deunyddiau ar gyfer cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer cymhwyso ac atgyfnerthu sgiliau llythrennedd a rhifedd, gwneud yn siŵr bod uwch reolwyr yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o fonitro cynnydd a chysondeb yn eu hysgol;
 - Broceru cymorth cwricwlwm (yn cynnwys LPLN).
 6. Paratoi cynigion a gweinyddu a monitro dosbarthiad ac effaith grantiau:
 - Cefnogi a monitro rhaglenni dal i fyny, yn arbennig y rhai sy'n derbyn cyllid grant i wybod a ydynt yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian.
 7. Paratoi ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Rhaglenni Astudio newydd a mynd i'r afael â materion sy'n codi o adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm.
 8. Cydweithio gyda'r NSP i sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'i ymgorffori a'i gynnal mewn ysgolion.
 - Defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i wella gallu disgyblion i ddefnyddio a chymhwyso eu sgiliau a'u gwybodaeth fathemategol mewn nifer o gyd-destunau a sefyllfaoedd gwahanol mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg ar draws y cwricwlwm.
 9. Sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi'n llwyddiannus ar gyfer yr arholiadau TGAU a'r profion PISA newydd.

- Datblygu a rhannu adnoddau o safon uchel sy'n hyrwyddo'r gwaith o addysgu'r sgiliau gofynnol;
- Darparu hyfforddiant o safon uchel i ysgolion ar ba sgiliau sydd eu hangen a'r ffordd orau o ddatblygu'r rhain;
- Datblygu llythrennedd gwyddonol pob disgybl ar draws y rhanbarth.

10. Gwella'r gwaith o ddatblygu llythrennedd deuol/driphlyg ym mhob ysgol ar draws y rhanbarth.

Mae ERW yn wasanaeth effeithiolrwydd ysgolion unigol, integredig, rhanbarthol a phroffesiynol, sy'n ysgogi gwelliannau mewn ysgolion a chyflawniadau dysgwyr ar draws ardal y chwe awdurdod lleol yn rhanbarth De Orllewin a Chanolbarth Cymru, o fewn tair canolfan:

- Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (Canolfan y Gorllewin)
- Ceredigion a Phowys (Canolfan y Gogledd)
- Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Canolfan y Dwyrain)

Mae'r model hwn o strategaeth ranbarthol sy'n cael ei gyflenwi drwy'r tair canolfan wedi'i ddatblygu er mwyn sicrhau proses gyflenwi effeithiol ar draws ardal ddaearyddol fawr, yr ystod amrywiol o ysgolion sy'n adlewyrchu'r cyd-destun rhanbarthol a natur ddwyieithog y rhanbarth.

Mae'r grŵp Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob ALL ac mae'n gyfrifol am ddatblygu gwelliannau ym mhob ysgol ar draws y rhanbarth. Mae hyfforddiant yn cael ei ddatblygu'n ganolog er mwyn sicrhau bod negeseuon yn gyson ar draws y tair canolfan.

Y sefyllfa bresennol

- Rhaglen hyfforddiant llythrennedd a rhifedd gytûn sy'n cael ei chyflenwi ar draws pob ALL yn 2014/2-15, gyda Mathemateg a Saesneg yn cael eu cynllunio ar lefel canolfannau unigol, yn ôl yr angen.
- Ar gyfer 2015/2016, mae'r grŵp llythrennedd a rhifedd wedi cytuno i leihau'r swm o hyfforddiant ganolog a roddir a darparu gwasanaeth mwy pwrpasol i'n hysgolion.
- Y meysydd y cytunwyd arnynt ar gyfer hyfforddiant rhanbarthol ganolog yw:
- Gwella perfformiad bechgyn
- Datblygu rhesymeg rifol
- Datblygu llythrennedd a rhifedd drwy Wyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2
- Gwella'r ddarpariaeth barhaus yn y Cyfnod Sylfaen
- Rhwydweithiau penaethiaid adrannau a chydlynwyr
- Mae dyddiau 'hyfforddi'r hyfforddwr' wedi'u cynllunio ar gyfer mis Ebrill, er mwyn sicrhau negeseuon cyson ar draws y rhanbarth yn ystod pob rhaglen hyfforddi ganolog a phwrpasol.

Nodau

Mae gan y strategaeth hon dri nod cyffredinol:

1. Codi safonau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion ERW
2. Gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar gyfer llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion ERW
3. Sicrhau ansawdd cyson yr hyfforddiant a roddir i ysgolion ERW gan swyddogion pwnc arbenigol.

Gwerthuso ac effaith

Ni ellir barnu bod gwelliannau sy'n cael eu harwain gan y sector yn llwyddiant oni fydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc. Dylai cynllunio ar gyfer effaith fod yn elfen hanfodol o'r gwaith o wella llythrennedd a rhifedd.

Y peth pwysig yw ei fod yn cael ei wneud, bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn cael ei fwydo'n ôl i'r broses gynllunio, a bod llwyddiant yn cael ei ddatlu.

Beth fydd y llwyddiant?

2015 – 2016

- A yw'r dysgwyr yn datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar y lefel a thu hwnt i'r lefel a ddisgwylir?
- A yw dysgwyr yn gallu defnyddio eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus yn eu cyd-destun ar draws y cwricwlwm?
- A oes gan ysgolion ERW y capasiti i gyflenwi ac ysgogi gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd?
- A yw rhifedd yn cael ei ddatblygu'n dda ar draws pob pwnc, yn yr un modd â llythrennedd?
- A yw ysgolion ERW yn cydymffurfio â holl ofynion statudol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?
- A yw ysgolion yn derbyn y cymorth cywir ac angenrheidiol i'w helpu i wella?
- A ydym yn herio cynnydd disgyblion yn ddigonol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd da neu well yn eu sgiliau llythrennedd a rhifedd?
- A yw ein hyfforddiant pwrpasol a chanolog yn addas i'r diben?
- A yw LPLN yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddatblygu capasiti a helpu ysgolion i wella?
- A yw Ymgynghorwyr Her yn broceru cymorth yn effeithiol gan arbenigwyr pynciau, er mwyn targedu ac ysgogi gwelliannau mewn ysgolion?

2016 – 2017

- A yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'i ymgorffori yn ein hysgolion?
- A yw ysgolion gwyrdd a melyn yn ymgysylltu mewn trefniadau cefnogol lle gallant ddatblygu eu capasiti eu hunain a chefnogi eraill yr un pryd?
- A oes gennym ysgolion hyderus sy'n cymryd risgiau er mwyn ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth?
- A ydym yn atgyfnerthu'r mynegai o ragoriaeth drwy gynnwys arfer penodol wrth ddatblygu llythrennedd a rhifedd?

- A ydynt yn Sicrhau Ansawdd gwaith swyddogion pwnc arbenigol yn effeithiol ar draws pob ALI?

2017 – 2018

- A yw ysgolion yn cefnogi ei gilydd yn dda?
- A yw safonau llythrennedd a rhifedd wedi cyflymu'n gyflymach nac yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac yn gyflymach na rhanbarthau eraill?